OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1814 (Cy.199) (C.74)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 13 Gorffennaf 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 121(5) a 122(3)(b) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("y Ddeddf")(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004.

Y dyddiad a bennwyd ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud â Chynllun Gofodol Cymru

2. Y dyddiad a bennwyd i adran 60 o'r Ddeddf ddod i rym yw'r 14 Gorffennaf 2004.

Darpariaeth Drosiannol

3. Bydd unrhyw gam a gymerwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â darparu Cynllun Gofodol Cymru(**2**), gan gynnwys unrhyw ymgynghoriad gydag unrhyw berson mewn perthynas â darpariaethau'r Cynllun, i'w drin fel un a gymerwyd er mwyn cyflawni'r dyletswyddau a osodwyd ar y Cynulliad Cenedlaethol gan adran 60 o'r Ddeddf, boed i'r cam hwnnw gael ei gymryd cyn y dyddiad a bennwyd gan erthygl 2 neu ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny.

(**1**) 2004 p.5.
(**2**) *Gweler* adran 58(1) o'r Ddeddf.